



## **Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council**

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 2 Mawrth 2021 am 6.00yh  
trwy linc fideo ar y wê**

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 2 March 2021 at 6.00pm  
through video link on the web

**Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors Clive Davies (yn y gadair/in the chair), John Adams-Lewis, Graham Evans, Catrin Miles, Siân Maehrlein, Richard Jones, Steffan Morgan, Elaine Evans, Morvenna Richards, Debra Griffiths, Yvonne O’Neill, Trystan Phillips, Mike Lewis (Tivy-Side), Llinos Haf Jones (Cyfiethydd/Translator) Eleri Maskell (Clerc/Clerk).**

### **Teyrnged i Mrs Marion Jenkins gan Y Cyng John Adams Lewis**

**Rwy’n teimlo’n gryf y dylai’r cyfarfod hwn gofnodi marwolaeth drist Mrs Marian Jenkins, gwraig annwyl y cyn-Gynghorydd Gwynfi Jenkins, a fu’n gynghorydd y dref am bron hanner can mlynedd. Bu Gwynfi a Marian yn Faer a Maeres Tref Aberteifi bedair o weithiau, y tro cyntaf yn 1979-80 a’r tro olaf yn 2013-14. Gwasanaethwyd y cyngor hwn a’r dref yn ei chyfanrwydd gydag urddas ac arddeliad pan oeddent yn brif-ddinasyddion.**

**Yn ogystal, roeddent ill dau yn gefnogol i bob digwyddiad, petai hwnnw yn ddinesig neu’n achlysur o ddatlu neu goffadwriaeth – roedd eu presenoldeb I holl weithgareddau’r dref a’r cyffuniau yn chwedlonol.**

**Atgofion annwyl iawn sydd gennym am Marian, a meddyliwn am Gwynfi yn ei hiraeth amdani. Anodd yw meddwl amdano heb ei briod ffyddlon yn ei ymyl.**

### **Tribute to Mrs Marion Jenkins by Cllr John Adams-Lewis**

I feel strongly that this meeting should record the sad death of Mrs Marian Jenkins, beloved wife of former Councillor Gwynfi Jenkins, who had been a town councillor for nearly fifty years. Gwynfi and Marian have been Mayor and Mayoress of Cardigan town four times, the first time in 1979-80 and the last in 2013-14. They served the council and the town with dignity and prestige when in office.

They were also supportive of every event, whether it was civic or a celebration or commemoration – their presence for all the town’s activities and surrounding areas was legendary.

We have very fond memories of Marian, and our thoughts are with Gwynfi in his grief. It is hard to imagine him without her by his side.

### **Cytunodd y Cyngorwyr â’r teimlad yn y deyrnged a diolchwyd i’r Cyng John Adams-Lewis am ei ddatganiad.**

Councillors agreed with the sentiment in the tribute and thanked Cllr John Adams-Lewis for his statement.

### **Caroline Blackburn – Preswlydd Cippyn, Llandudoch**

**Mynychodd Ms Blackburn y cyfarfod i fynegi ei barn ar yr ymgyrch “Mae 20 yn digon” ar gyfer ardal Spring Gardens. Pwyntiau a wnaed yn ei cyflwyniad oedd bod y stryd yn ffordd cyswllt a choridor teithio i breswylwyr sy’n byw yn Llandudoch, Poppit a Cippyn. Erys y ffordd i fod mewn lleoliad gwledig ac nid mewn ardal drefol adeiledig – sydd wedi’i chymhwyso gan nifer y goleuadau stryd ar y ffordd. Mae palmant digonol ar gyfer cerddwyr ac mae’r ffordd yn ddigon llydan i ganiatau i feicwyr â cheir wrth eu hyml. Mae’r stryd yn ffordd araf naturiol oherwydd ei ffurf, ni ellir cyrraedd cyflymderau uchel ar y darn hwn. Ychydig o gefnogaeth sydd i’r terfyn cyflymder 20mya hwn gan drigolion Poppit a Cippyn. Diolchodd Ms Blackburn i’r Cyngor am y cyfle i roi ei safbwynt.**

**Mae’r Cyng Catrin Miles a Yvonne O’Neill, y mae’r ddau ohonyn nhw’n breswylwyr yn yr ardal hon, yn cefnogi’r ymgyrch ar y prif sail o wella diogelwch ar y ffyrdd, roedd y Cyng John Adams-**

**Lewis yn dymuno datgan ei gefnogaeth hefyd. Cyfarwyddodd y Cynghorwyr mewn cyfarfod blaenorol i lythyr cefnogaeth gan y Cyngor Tref gael ei ysgrifennu i gefnogi'r ymgyrch.**

Caroline Blackburn – Resident Cippyn, St Dogmaels.

Ms Blackburn attended the meeting to express her opinion on the "20 is Plenty" campaign for the Spring Gardens area. Points made in her presentation were that the road is a link road and travel corridor for residents living in St Dogmaels, Poppit and Cippyn. The road remains to be in a rural setting and not a built-up urban area – which is qualified by the number of street lights on the road. There is adequate pavement for walkers and the road is wide enough to allow for cyclists with cars alongside. The road is a naturally slow road due to the form it takes, high speeds cannot be reached on this stretch. There is little support for the 20mph speed limit from the residents of Poppit and Cippyn. Ms Blackburn thanked the Council for the opportunity to share her viewpoint. Cllrs Catrin Miles and Yvonne O'Neill, both of whom are residents in this area, support the campaign on the main basis of improving road safety, Cllr John Adams-Lewis wished to declare his support also. Councillors in a previous meeting instructed a letter of support from the Town Council be written to support the campaign.

**1. I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb**

**Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a cytuno a'r rhesymau a roddwyd.**

To receive apologies for absence

To receive, and consider for approval, apologies for absence and reasons given.

**Y Cyng/Cllrs Wyn Jones, Shan Williams.**

**2. I dderbyn datganiadau o ddiddordeb**

**Atgoffir aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ar unrhyw eitem ar yr Agenda hon ar yr adeg hon neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Aberteifi.**

To receive declarations of interest

Members are reminded to declare any interest on any item on this Agenda at this point or at any point during the meeting in accordance with Cardigan Town Council's Code of Conduct.

Y Cyng / Cllr John Adams-Lewis	Materion cynllunio/ Planning matters
--------------------------------	--------------------------------------

**3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 2 Chwefror 2021.**

Minutes of last meeting

To approve and sign minutes of the meeting held on Tuesday 2 February 2021.

**Cynigiwyd gan y Cyng Richard Jones ac eiliwyd gan y Cyng Siân Maehrlein bod cofnodion cyfarfod 2 Chwefror yn gywir.**

Cllr Richard Jones proposed that the 2 February council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Siân Maehrlein.

**4. Adroddiad y Clerc**

**I dderbyn adroddiad gan Clerc y dref yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2021.**

- a) Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno deddfwriaeth ar 1 Mawrth sydd yn gwahardd ysmegu mewn meysydd chwarae cyhoeddus yng Nghymru. Mae arwyddion eisoes wedi'u gosod ym mhob un o'n 3 ardal chwarae a Chlerc Cyngor Tref Aberteifi fydd y person dynodedig sydd â dyletswydd i gymryd rhagofalon rhesymol i gynnal y deddfau newydd.

### Clerk's report

To receive a report from the Town Clerk outlining actions taken following the meeting held on 2 February 2021.

- a) New smoke-free legislation has been introduced on 1 March 2021 which bans smoking in public playgrounds in Wales. Signs have already been installed in all 3 of our play areas and the Clerk for Cardigan Town Council will be the designated person who has a duty to take reasonable precautions to uphold the new laws.

### 5. Eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat I benderfynu pa eitemau, os o gwbl, o'r Agenda y dylid eu cymryd gyda'r cyhoedd wedi'u gwahradd.

#### Items to be taken in private session

To determine which items, if any, of the Agenda should be taken with the public excluded.

**Oherwydd natur gyfrinachol y busnes oedd i'w drafod, gwaherddwyd y wasg, a thrafodwyd eitem 7 f) mewn pwyllgor, cyntunwyd hyn gan y Cynghorwyr.**

In view of the confidential nature of the business to be transacted, the press was excluded and the council discussed item 7 f) in committee, all Councillors agreed.

### 6. Cynllunio

**Ystyried ceisiadau cynllunio a derbynnir a dadansoddi sylwadau priodol.**

#### Planning

To consider planning applications received and resolve to submit appropriate comments.

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A210086 A210034  <i>(anfonwyd ar/sent on 23/02/2021)</i>	<i>Hen Gapel Gobaith, Lôn Cludwyr, Aberteifi, SA43 1FA / Former Hope Chapel, Carriers Lane, Cardigan SA43 1FA</i>	<i>Cadw newid defnydd eiddo manwerthu gyda bar/bwyt a fflat deulawr gyda fflat drosodd ac adeiladu adeilad newydd sy'n cysylltu'r hen gapel a'r adeilad argraffu ac waith cysylltiedig. Retention of change of use to retail premises with bar/restaurant and maisonette with flat over and construction of new build linking the former chapel and print works and associated works.</i>	<i>Maer' Cyngor yn cefnogi'r cais hwn / The council supports this application.</i>
A210105  <i>(anfonwyd ar/sent on 23/02/2021)</i>	<i>Pen y Felin, Ffordd Melin Newydd, Aberteifi, SA43 1QT / Pen y Felin, Newmill Road, Cardigan SA43 1QT</i>	<i>Newid o dô gwastad i dô ar ongl i ddarparu storfa ar gyfer garej/gweithdy domestig presennol. Change from flat roof to pitch roof to provide storage for existing garage/domestic workshop.</i>	<i>Nid oes gan y cyngor wrthwynebiad i'r cais hwn / The council has no objection to this application.</i>

## 7. Eitemau i'w hystyried a'u dadansoddi / Items for consideration and resolution

### a) Biliau i'w talu / Bills to be paid

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
01/3/21	Tai Aberteifi Ltd.: Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Mawrth/March) Band Lydan (Mawrth) / Broadband (March)	A9 A20	D/D 5018	£250.00 (0.00) £20.00 (0.00)
02/03/21	Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Chwefror/February)	A5	5019	£1119.73(0.00)
02/03/21	Bachan Deche / Handyperson (Chwefror/February)	A19	5020	£100.80(16.80)
19/02/21	Gwasanaeth Cyfieithu / Translation Service	A18	5021	£82.50(0.00)
19/02/21	Zoom – Webinar fee, one month	A20	5022	£38.40(6.40)
31/01/21	M&E Pearce	C6	5023	£33.24(5.54)
3/02/21	GoboPlus Ltd – Calon Enfys GIG/NHS Rainbow Heart		5024	£225.00(37.50)
27/03/21	Siemens: Prydles y llungopiwr / Lease of photocopier	A7	D/D	£150.00 (25.00)
15/02/21	David Evans – engrafid plac/plaque engraving	B5	5025	£19.20
17/02/21	Adventure Wales Playgrounds	C3	5026	£46,189.20 (7,698.20)
23/02/21	GoboPlus Ltd – Cennin Pedr / Daffodils	C2	5027	£320.64(53.44)
02/03/21	Tago LLC – Dashboard “Internet of Things”	C2	5028	£431.98(0.00)

### **Cynigodd y Cynghorwyr bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu.**

The Councillors proposed that the listed bills be paid.

#### **Derbyniadau/Receipts:**

11/1/2021	Lloyds Bank: Llog / Interest	£0.49
29/1/2021	Rhodd CSC / Grant CCC	£7,629.00

### b) Gohebiaeth / Correspondence

	Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read	Sylwadau / Comments
328	Gerwyn Jones -Rheolwr corfforaethol Gwasanaethau Amgylcheddol / Corporate Manager Environmental Services: Ateb i lythyr a anfonwyd gan y Cyng Elaine Evans ynghylch llanast cŵn / Replay to letter sent by Cllr Elaine Evans regarding dog mess.	Gwybodaeth ynghylch menter CSC “Eich Ci Eich Swydd”. Information regarding CCC “Your Dog Your Job” initiative. Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 03/02/2021. For your information. Forwarded to all councillors on 03/02/2021.
329	Ceri Poulson -Pryderon ynghylch A478 Aberteifi i Ffordd Dinbych y Pysgod / Concerns regarding the Cardigan A478 to Tenby Road.	Cyng Catrin Miles i ymateb ac i ddiweddarau Mr Poulson ar ran y Cyngor / Cllr Catrin Miles will reply and update Mr Poulson on behalf of the council.
330	Tracy Gilmartin-Ward Un Llais Cymru / One Voice Wales – Ymgyrch diogelu Cymru gan Golley Slater ar ran	Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 03/02/2021.

	<i>Llwyodraeth Cymru / Keep Wales Safe Campaign by Golley Slater Communications on behalf of Welsh Government.</i>	For your information. Forwarded to all councillors on 03/02/2021.
331	Martin Raymond, Bubble of fun – <i>Cais am maes barhaol ar gyfer yr haf, i osod reidiau plant / Request for permanent pitch for the summer, to place children’s rides.</i>	<i>Y cae rygbi fyddai’r safle mwyaf addas, y cler i anfon manylion i Mr Raymond, Bubble of Fun a Phwyllgor y Clwb Rygbi / The rugby pitch would be the most suitable site, Clerk to forward details to Mr Raymond, Bubble of fun and the Rugby Club Committee.</i>
332	Bridget Hiser – <i>Copi o Ddeiseb Gwrth-pedestreiddio Aberteifi / Copy of Cardigan Anti-pedestrianisation Petition.</i>	<i>Clerc i gydnabod derbyn y ddeiseb, egluro bod pedestreiddio yn benderfyniadau CSC ac i ddatgan bod peth o’r geiriad a ddefnyddir yn y llythyr deiseb yn sarhaus / Clerk to acknowledge receipt of the petition, explain that pedestrianisation are CCC decisions and to declare some of the wording used in the petition letter to be offensive.</i>
333	Julia Hobbs <i>Rheolwr prosiect Reengage Project Manager: Gwybodaeth am wasanaeth galwadau i cymdeithion / Information on a call companions service.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i’r cyngorwyr ar 04/02/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 04/02/2021.
334	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Ymgynghoriad – Canllawiau drafft newydd Cod Ymddygiad / Consultation – New draft Guidance Code of Conduct.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i’r cyngorwyr ar 08/02/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 08/02/2021.
335	Gerwyn Jones <i>-Rheolwr corfforaethol Gwasanaethau Amgylcheddol / Corporate Manager Environmental Services: Llanast Cŵn / Dog mess.</i>	<i>Cytundeb i leoli bin newydd ar Rhodfa’r Felin, templedi palmant i’w dilyn pan fydd yn ddiogel gwneud hynny / Agreement to site a new bin on Rhodfa’r Felin, pavement templates to follow when safe to do so.</i>
336	Wendi Patience – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Gwersyll Cymunedol Digidol Prosiect Eden Mawrth 2021 / Eden Project Virtual Community Camp March 2021.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i’r cyngorwyr ar 09/02/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 29/02/2021.
337	Gari Jones, <i>Peiriannydd – Diogelwch a theithio Llesol, Prifffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol CSC, Ceisiadau grant cronfa teithio gweithredol / Engineer- Safe and Active Travel, Highways and Environmental Services CCC, Active Travel Fund Grant Applications.</i>	<i>Nid oes angen cyllid cyfatebol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 2021 a 2022 / No match funding required for the financial year ending 2021 and 2022.</i>
338	Mel ab Owain – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Bwletin Newyddion / News Bulletin.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i’r cyngorwyr ar 09/02/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 29/02/2021.
339	Katie Powis - <i>Ymgrych diogelu Cymru gan Golley Slater ar ran Llwyodraeth Cymru / Keep Wales Safe Campaign by Golley Slater Communications on behalf of Welsh Government.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i’r cyngorwyr ar 09/02/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 09/02/2021.
340	Helena Turgel, <i>Theatr Mwldan: Datganiad i’r Wasg, Gŵyl 2021 - Pedair gŵyl gelfyddydol fwyaf Cymru yn ymuno am penwythnos, ar-lein am ddim, 6-7 Mawrth/ Four of Wales’ largest Welsh festivals coming together for a free on-line weekend 6-7 March.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i’r cyngorwyr ar 10/02/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 10/02/2021.
341	Cathryn Morgan <i>Cydlynnydd Teuluoedd yn gyntaf a Ffoaduriaid CSC / Families First and Refugees Coordinator CCC: Negeseuon pwysig i aelodau Rhwydwaith Chwarae Ceredigion ar gyfer Cofid-19 / Important messages to Ceredigion Play Area Network with regard Covid -19.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i’r cyngorwyr ar 11/02/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 11/02/2021.
345	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC/WLGA coronavirus update.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i’r cyngorwyr ar 15/02/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 15/02/2021.

346	Leighton Jones – <i>Ysgrifenyddiaeth Panel Annibynol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol / Secretariat to the Independent Remuneration Panel for Wales.</i>	<i>Adolygu Fframwaith taliadau Cyngorau Cymuned a Chyngorau Tref / Review of the Remuneration Framework for Community and Town Councils.</i>
347	Gwen Clements - <i>Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda/Hywel Dda Community Health Council: Poster coronafirws generig / Generic coronavirus poster.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 17/02/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 17/02/2021.
348	Carol Jenkins – <i>Cais i nodi Diwrnod Heddwch Rhyngwladol / Request to observe the International Day of Peace.</i>	<i>Clerc i ofyn am wybodaeth bellach / Clerk to request further information.</i>
349	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – DC Gareth Jordan Heddlu Dyfed Powys Police – Rhybudd sgam Facebook / Facebook Phishing Scam Alert.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 17/02/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 17/02/2021.
350	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Newyddlen Etholiadau / Elections Newsletter.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 17/02/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 17/02/2021.
351	Y Cyng/Cllr Catrin Miles – <i>Sbwriel yn rhes William / Rubbish in Williams Row.</i>	<i>Mae Cyng Elaine Evans yn adrodd ar y mater hwn i Clic bob wythnos. Gwybodaeth bellach i'w hymchwilio ar gyfer cyfarfod y mis nesaf / Cllr Elaine Evans reports on this issue to Clic on a weekly basis. Further information to be researched for meeting next month.</i>
352	Cathryn Morgan <i>Cydlynnydd Teuluoedd yn gyntaf a Ffoaduriaid CSC / Families First and Refugees Coordinator CCC: Deddfwriaeth newydd ar wahardd ysmegu i'w chyflywno ar 1 Mawrth / New smoke-free legislation to be introduced on the 1 March.</i>	<i>Mae arwyddion eisoes lan yn y Parc Sglefrio a Pentop, bydd arwyddion Brenin Siôr yn cael eu codi cyn iddo ailagor / Signs are already up in the Skatepark and Pentop, King George V signs will be erected before it re-opens.</i>
353	Eni Hansen-Magnusson, <i>Sustrans Cymru – Adroddiad interim ymgynghoriad mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol / Active Travel Network maps consultation, interim report.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 17/02/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 17/02/2021.
354	Steve Hallows - <i>Priffyrdd a Gwasanaethu Amgylcheddol / Highways and Environmental Services: Ymateb i e-bost yn gofyn am ffordd fynediad newydd i Ystâd Ddiwydiannol Pentood o'r ffordd osgoi / Reply to email requesting new access road to Pentood Industrial Estate from the bypass.</i>	<i>Gweler gohebiaeth rhif 365 / See correspondence no 365.</i>
355	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC/WLGA coronavirus update.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 22/02/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 22/02/2021.
356	Tim Tagg – <i>20 is plenty Spring Gardens: Copïau o ohebiaeth er ein sylw / Copies of correspondence for our attention.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 22/02/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 22/02/2021.
357	Caroline Blackburn – <i>Cais am ddod i gyfarfod nesaf y Cyngor / Request to attend the next council meeting.</i>	<i>Y Clerc wedi anfon yr Agenda a'r linc Zoom / Clerk forwarded the Agenda and the zoom link.</i>
358	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Cais am ymateb i ymgynghoriad Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon i Gymru / Request for response to Litter and Fly-tipping Prevention Plan for Wales Consultation.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 22/02/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 22/02/2021.
359	Katie Powis - <i>Ymgyrch diogelu Cymru gan Golley Slater ar ran Llwyodraeth Cymru – negeseuon diwrnod gêm rygbi / Keep Wales Safe Campaign by Golley Slater Communications on behalf of Welsh Government – rugby day messaging.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 23/02/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 23/02/2021.

360	Mererid Jones – <i>Swyddog Prosiectau ag Ymgysylltu Gwastraff</i> / Waste Projects and Engagement Officer.	<i>Newid diwrnod casglu sbwriel i rhif llwybr 117</i> / Change of rubbish collection day for route 117.
361	Sarah Bowen – <i>Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol</i> / Community Cohesion Officer (Ceredigion a Powys): <i>Hyfforddiant trosedd casineb</i> / Hate Crime training.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 23/02/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 23/02/2021.
362	Leighton Jones – <i>Ysgrifenyddiaeth Panel Annibynol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol</i> / Secretariat to the Independent Remuneration Panel for Wales.	<i>Panel Annibynol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: Adroddiad blynyddol 2021 i 2022</i> / Independent Remuneration Panel for Wales: Annual report 2021 to 2022.
363	Wendi Patience – <i>Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales: <i>Sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Mawrth</i> / Remote training sessions that are taking place in March.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 26/02/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 26/02/2021.
364	Rhys Davies – <i>Llywodraeth Cymru/Welsh Government: Gwahoddiad i gweminar "Ail Gartrefi – Datblygu polisiau newydd yng Nghymru"</i> / Webinar invitation "Second Homes – Developing new policies in Wales" gan/by Dr Simon Brooks.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 01/03/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 01/03/2021.
365	Jason Ingram – North and Mid Wales Trunk Road Agent: <i>Ymateb i gais am ffordd fynediad i Ystâd Pentood o'r ffordd osgoi</i> / Response to request for access road to Pentood Estate from the by-pass.	<i>Mae'r Cyngorwyr yn anghytuno bod y ffordd fynediad B4546 i fod yn ddiogel neu'n addas. Clerc i ymateb i bwysleisio pwyntiau sy'n gofyn am ffordd fynediad newydd i'r ffordd orsgoi</i> / Cllrs disagree that the access road B4546 to be safe of suitable, Clerk to reply to emphasise points requiring a new access road on to the bypass.
366	Huw Davies – <i>Rheolwr Ymgysylltu'r Cyfrifiad</i> / Census Engagement Manager: <i>Gwybodaeth sut i gael help i lenwi y ffurflen Gyfrifiad</i> / Leaflet on how to get help to fill the Census form.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 01/03/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 01/03/2021.
367	Tim Tagg – Behaviour change needed.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 02/03/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 02/03/2021.
368	<i>Gofal mewn Galar</i> / Cruse Bereavement Care: <i>Cais am gymorth ariannol</i> / Application for financial support.	<i>I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.

**c) Ethol Maer-Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am 2021-22 / Election of Cardigan Town Council Mayor-Elect for 2021-22.**

**Cynigiwyd gan y Cyng Clive Davies ac eiliwyd gan y Cyng Trystan Phillips bod y Dirprwy-Faeres, y Cyng Debra Griffiths, i'w ethol yn Faeres-Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am y flwyddyn 2021-22. Roedd y cyngor yn unfrydol.**

It was proposed by Cllr Clive Davies and seconded by Cllr Trystan Phillips that the Deputy Mayor, Cllr Debra Griffiths, be elected Cardigan Town Council Mayor-Elect for the year 2021-22. Members were unanimous in their decision.

**d) Ethol Dirprwy-Faer Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am 2021-22 / Election of Cardigan Town Council Deputy Mayor-Elect for 2021-22.**

**Cynigiwyd gan y Cyng John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng Graham Evans bod y Cyng Trystan Phillips i'w hethol yn Ddirprwy-Faer Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am y flwyddyn 2021-22.**

**Cynigiwyd gan y Cyng Richard Jones ac eiliwyd gan y Cyng Elaine Evans bod y Cyng Siân Maehrlein i'w hethol yn Ddirprwy-Faer Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am y flwyddyn 2021-22.**

**Cyhoeddod y Cadeirydd fod angen pleidlais, cafodd ei chario o 6 pleidlais i 4 bod y Cynghorydd Trystan Phillips yn cael ei ethol yn Ddirprwy Faer am y flwyddyn 2021-22.**

Cllr John Adams-Lewis proposed that Cllr Trystan Philips be elected Cardigan Town Council Deputy Mayor-Elect for the year 2021-22. This was seconded by Cllr Graham Evans. Cllr Richard Jones proposed that Cllr Siân Maehrlein be elected Cardigan Town Council Deputy Mayor-Elect for the year 2021-22. This was seconded by Cllr Elaine Evans. The Chairman declared that a vote was required, it was carried by 6 votes to 4 that Cllr Trystan Phillips be elected as Deputy Mayor for the year 2021-22.

- e) **Gwaith atgyweirio i'r cwad aml-chwarae / Repair work to the multi sports quad. Ystyried a chytuno ar y costau ar gyfer gwneud y gwaith angenrheidiol ac i drafod y cais am flaendal i brynu deunyddiau. Mae dadansoddiad o'r costau o Anvil Fabrications wedi'u hanfon at Gynghorwyr cyn y cyfarfod.**

To consider and agree the costs for the necessary work to be carried out and to discuss the request for a deposit to purchase materials. A breakdown of the costs from Anvil Fabrications have been forwarded to Councillors prior to the meeting.

**Penderfynwyd cytuno ar y costau i'r gwaith angenrheidiol gael ei wneud a rhoi cyfarwyddyd i Anvil Fabrications i brynu deunyddiau o Jewsons a M&E Pearce lle mae gan y Cyngor Tref gyfrifon credyd, gan osgoi'r angen am flaendal. Roedd y Clerc yn dymuno tynnu sylw na chflwynwyd y contract i dendr, sy'n ofynnol ar gyfer contractau sy'n fwy na £1000 yn y rheolau Sefydlog, ond cytunodd y Cynghorwyr yn ynfrydol bod angen codi'r uchafswm ariannol ar gyfer contractau a dendrwyd i adlewyrchu costau cynyddol. Roedd y dyfyniad gan Mr Phillips, Anvil Fabrications yn yr achos hwn yn adlewyrchiad cywir o'r gost am y gwaith dan sylw ac mae wedi profi'n ddibynadwy wrth weithio i'r cyngor ar aclysuron blaenorol.**

It was resolved to agree the costs for the necessary work to be carried out and to give instruction to Anvil Fabrications to purchase materials from Jewsons and M&E Pearce where the Town Council have credit accounts, thus avoiding a need for a deposit. The Clerk wished to point out that the contract was not put out to tender, which is required for contracts exceeding £1000 in the Standing Orders, but Councillors unanimously agreed that the financial limit for tendered contracts needs to be raised to reflect rising costs. The quote from Mr Phillips, Anvil fabrications in this instance was a correct reflection of the cost for the work involved and has proved reliable and trustworthy when working for the council on previous occasions.

- f) **Adolygu Fframwaith taliadau Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref / Review of the Remuneration Framework for Community and Town Councils.**

**Mae'r adroddiad llawn yn dilyn adolygiad ar daliadau i aelodau Cynghorau Cymuned a Thref wedi'i anfon at Gynghorwyr (Gohebiaeth 346). Mae'r Clerc yn dymuno i Gynhorwyr nodi:**

**"Rhaid i bob Cyngor Cymunedol a Thref sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn i bob un o'u haelodau fel cyfraniad at gostau a threuliau."**

The full report following the review of payments to members of Community and Town Councils has been forwarded to Councillors (Correspondence 346). The Clerk wishes for Councillors to note:

"All Community and Town Councils must make available a payment to each of their members of £150 per year as a contribution to costs and expenses."

- g) **Model o Orsaf Reilffordd Aberteifi / Model of Cardigan Railway Station.**

**Cytuno ar rodd ar gyfer meddiannu'r fodel rheilffordd a phenderfynu ar leoliad i'w arddangos i'r cyhoedd / To agree a donation for the appropriation of the model railway and decide on location to display it to the public.**

**Mae Castell Aberteifi wedi cytuno i arddangos y fodel rheilffordd am y tro. Penderfynwyd rhi rhodd o £100 ar gyfer y model i Amgueddfa y Cardi Bach.**

Cardigan Castle have agreed to display the model railway for the time being. It was resolved to make a donation of £100 for the model which will be donated to the Cardi Bach Museum.



**h) Arwyddion ar gyfer Canolfan Gofal Integredig Aberteifi / Signage for Cardigan Intergrated Care Centre.**

**Mae'r diffyg arwyddion ar gyfer y Ganolfan yn parhau i beri problem i gleifion sy'n teithio ymhellach i ffwrdd na thrigolion lleol. Rhannodd y Cyng John Adams-Lewis ymateb gan CSC yn nodi "Bod y bobl sy'n defnyddion y safle yn lleol; Mae'r awdurdod yn cael ei gyfarwyddo i leihau annibendod arwyddion mewn ardaloedd trefol; Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion uniongyrchol gan y cyhoedd; Ar hyn o bryd nid oes unrhyw arwyddion cyfeiriad wedi'u cynllunio ar gyfer unrhyw ganolfannau iechyd newydd yn Ngheredigion." Ar ôl trafodaeth byr, penderfynwyd gofyn i Hywel Dda drefnu ac ariannu arwyddion. Cytunwyd hefyd i ofyn am lythyr gan y Ganolfan yn tynnu sylw at achosion penodol lle na allai pobl ddod o hyd i'r ganolfan ac i gasglu digwyddiadau, amsroedd a dyddiadau i ddangos prawf bod hwn yn broblem, byddai'r llythyr wedyn yn cefnogi'r cais am arwyddion o Hywel Dda.**

The lack of signage for the Centre continues to pose a problem for patients travelling from further afield than local residents. Cllr John Adams-Lewis shared a response from CCC stating "People using the centre are local; The Authority is directed to reduce sign clutter in urban areas; No direct complaints from the public have been received; No direction signage is currently planned for any new health centres in Ceredigion." After a short discussion it was resolved to ask Hywel Dda to arrange and fund signage. It was also agreed to request a letter from the Centre highlighting specific instances where people could not find the Centre and to collect incidents, times and dates to demonstrate proof that this is an issue, the letter would then provide support to the request for signs from Hywel Dda.

**8. Eitemau er gwybodaeth yn unig/ Items for information only**

**a) Adroddiad y Maer**

- i. Mynychwyd grŵp llywio'r Pwll Nofio i gwrdd â'r tîm i weithio ar astudiaeth ddichonoldeb.**
- ii. Gwaith ar y gweill yn maes chwarae Brenin Siôr V, gobaith yw ailagor adeg y Pasg.**
- iii. Cyfarfod â Wales and West, Penseiri Gaunt Francis, hasneswyr lleol a'r Cynghorwyr i drafod cynlluniau drafft ar gyfer safle ysbyty Aberteifi.**
- iv. Trosglwyddwyd gwybodaeth i'r Cynghorwyr Sir am bryderon ac ymholiadau a godwyd gan ddinasyddion Aberteifi.**
- v. Cyfarfod â'r datblygwr newydd ar gyfer uwchraddio App Tref Aberteifi.**
- vi. Datblygu system Rhyngwyd o bethau ar gyfer tref Aberteifi.**
- vii. Cyfarfod â Ghonswliaeth Iwerddon i symud ymlaen â'r syniad gefeillio, wedi'r pandemig, gyda Dingle, Sir Kerry.**
- viii. Darparu gwybodaeth i fusnesau tref Aberteifi ar Covid a grantiau datblygu economaidd yn y dyfodol.**

**a) Mayors' Report**

- i. Attended steering group for Swimming Pool to meet the team to work on feasibility study.**
- ii. King George V play area, work underway, hope to re-open at Easter.**
- iii. Meeting with Wales and West, Gaunt Francis Architects, local historians and Councillors to discuss draft plans for the Cardigan Hospital site.**
- iv. Sign posting to relative County Councillors concerns and queries raised by Cardigan people.**
- v. Meeting with new developer for upgrading Cardigan Town App;**
- vi. Developing an Internet of Things system for Cardigan Town;**
- vii. Meeting with Irish Consulate to progress the twinning idea post pandemic with Dingle, County Kerry;**

- viii. Provided information to Cardigan Town businesses on COVID and future economic development grants;

b) **Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors**

**Y Cyng Elaine Evans Ward Rhyd-y-fuwch**

- i. Yn falch o allu adrodd bod bin newydd i gael ei osod ar Rhodfa'r Felin ochr Ffordd Gwbert i helpu leihau'r broblem llanast cŵn ar y ffordd honno.
- ii. Cwynion parhaus gan y cyhoedd a Chyngor Cymunedol Llangoedmor am y goleuadau traffig heibio i Barc Teifi ar y ffordd yr A484 i Llechryd, mae pob un onhonynt wedi'i anfon ymlaen i Clic. Nododd ymateb diweddar *"Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda chynrychiolydd y tirfeddiannwr. Derbyniwyd dyluniad dros dro i'w gymeradwyo. Ar ôl ei gymeradwyo, bydd contractwr y tirfeddiannwr yn gwneud gwaith adeiladu"*.
- iii. Mae adroddiadu am ddefaid cloff ar y tir ger y goleuadau traffig ar yr A484 wedi'u hanfon at Clic, mae Geraint Lewis CSC yn delio â'r mater hwn.
- iv. Yn dilyn cyflwyniad diddorol gan y penseiri Gaunt Francis ynghylch y safle yn ysbyty Aberteifi, cefais gyfle i drafod y posibilrwydd o ardd synhwyrdd ar y safle. Rwy'n angerddol am yr angen i ardd synhwyrdd heddychlon i bobl leol sydd ag awtistiaeth ac anableddau gael mynediad iddi, roedd Gaunt Francis yn awyddus iawn i ymgorffori'r syniad hwn, bydd yn gweddu i'r cymal Budd Cymunedol sydd angen ei ymgorffori yn eu cynlluniau. Byddaf yn parhau i bwysu am ganlyniad cadarnhaol.

**Cllr Elaine Evans Rhyd-y-fuwch Ward**

- i. Pleased to be able to report that a new bin is to be installed on Rhodfa'r Felin at the Gwbert Road end to help reduce the dog mess problem on that road.
- ii. Continued complaints from the public and Llangoedmor Community Council about the traffic lights just beyond Parc Teifi on the A484 road to Llechryd, all of which have been forwarded to Clic. A recent response stated *"Discussions are being carried out with the landowner's representative. A provisional design has been received for approval. Once approved, construction works will be carried out by the landowner's contractor."*
- iii. Reports of lame sheep on the land adjacent to the traffic lights on the A484 have been forward to Clic, Geraint Lewis CCC is dealing with this matter.
- iv. Following an interesting presentation from the architects Gaunt Francis regarding the land at Cardigan hospital, I had the opportunity to discuss the possibility of a sensory garden in the grounds. I am passionate about the need for a peaceful sensory garden for local people with autism and disabilities to access, Gaunt Francis were very keen to incorporate this idea, it will suit the Community Benefit clause needed to be incorporated into their plans. I will continue to apply pressure for a positive outcome.

**Y Cyng Catrin Miles Ward Teifi**

- i. LLIFOGYDD: cefais gyfarfod gydag Elin Jones, Ben Lake a Chyfoeth Naturiol Cymru - sydd a digwyddiad Rhandeiliaid rhithiol ar y cyd gyda CSC a Dwr Cymru ar frig eu agenda - yn ogystal a chyflwyno diweddariad mwy rheolaidd. Gofynnais am y bagiau mawr swnd ar lithrfan Gloster Row: cyn belled a bod dealltwriaeth nad ydynt yn atal llifogydd gall ddeillio o fannau eraill ar hyd yr afon, does dim drwg o'u gosod yno.
- ii. YSGOLION: Cyfnod Sylfaen wedi mynd nol i'r ysgol yn raddol a'r gobaith yw cael Dosbarthiadau cyfan CS nol erbyn 5ed o Fawrth - cyn belled a bod achosion yn aros yn isel yng Ngheredigion. Y gobaith wedyn yw croesawu blynyddoedd hyn, i gael addysg wyneb i wyneb.

- iii. **BIL CWRICWLWM:** ar ran Cabinet CSC wnes i lunio llythyr i'r Gweinidog Addysg a Gweinidog y Gymraeg yn rhoi cefnogaeth i'r galw am statws statudol i Hanes Cymru yn y Cwricwlwm Newydd i Gymru. Byddai hyn yn cynnwys hanes pobl o bod hil a chefnidir sydd wedi cyfrannu at stori genedlaethol ein gwlad.
- iv. **CYLLID CSC:** Cyhoeddodd datganiad o'r Setliad Terfynol o Gaerdydd na fydd Ceredigion yn derbyn y llawr cyllido o 3% a addawyd, rydym i aros ar 2% ond bydd grantiau ar gael gall leddfu'r diffyg.
- v. **PARTHAU DIOGEL:** Bydd trafodaeth gydag Aelodau Lleol Cyngor Sir cyn hir.
- vi. **BRECHLIN COVID:** Gofynnir i bawb aros at yr un drefn sef aros am wahoddiad.

#### Cllr Catrin Miles Teifi Ward

- i. **FLOODING:** Met with Elin Jones, Ben Lake and NRW - who state that a Virtual Stakeholder event (in association with CCC and Welsh Water) is top of their agenda. Also: more regular updates from now on. Their response to giant sandbags on Gloster Row slipway: if they inspire confidence and people realise they cannot prevent possible flooding via other sites, they can do no harm.
- ii. **SCHOOLS:** Foundation Phase (3-7yo) returning gradually to School, with the hope of having full classes back by 5th March - with the caveat that Covid cases continue to fall. Older years considered next for a return to face-to-face teaching.
- iii. **ÇURRICULUM BILL:** on behalf of CCC Cabinet CSC I compiled a letter to the Ministers for Education/Welsh Language supporting the granting of mandatory status to the teaching of Welsh History in the New Curriculum for Wales. This would include the history of people of all ethnicities and backgrounds who contributed to the national story of our country.
- iv. **CCC BUDGET:** Statement of Final Settlement declared that Ceredigion will not receive the 3% funding floor that was promised, we are to remain at 2% but grants will be available that may mitigate the deficiency.
- v. **SAFE ZONES:** Local members to have a briefing shortly.
- vi. **COVID VACCINATIONS:** Everyone's requested to keep to the normal procedure and wait for their invitation to attend.

#### Y Cyng John Adams-Lewis

- i. **Arwyddion i'r Ganolfan Iechyd Integredig – gweler 7. h).**
- ii. **Model Gorsaf y Rheilffordd – gweler 7. g).** Byddaf yn trefnu trosglwyddo'r model.
- iii. **Goleuadau stryd Rhodfa'r Felin – mae'r holl oleuadau bellach yn gweithio'n iawn, mae'r golau yn Felinban yn parhau i fod allan o drefn – byddaf yn ei riportio eto.**
- iv. **Casgliad sbwriel, Gogledd y dref – mae'r dydd wedi newid o dydd Gwener i dydd Mercher, dechrau ar 10 Mawrth.**

#### Cllr John Adams-Lewis

- i. **Integrated Care Centre Signs – see 7.h).**
- ii. **Model of the Railway Station – see 7. g).** I will arrange to transport the model.
- iii. **Street lights Rhodfa'r Felin – all the lights are now in working order, the light in Felinban remains out of order – I will report it again.**

- iv. Rubbish collections, North of Cardigan – the collection day has changed from a Friday to a Wednesday, starting on the 10 March.

c) **Adroddiad y Bachan Deche / Handyperson's Report**

- i. **Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5<sup>th</sup> Children's Play Area**  
**Dim byd o bwys i'w gofnodi, gwaith yn parhau / Nothing of note to record, work ongoing.**
- ii. **Man chwarae amlbwrpas a chyrtau tenis/ Multi-purpose play area and Tennis Courts.**  
**Dim byd o bwys i'w gofnodi, yn parhau i fod dan glo / Nothing of note to record, remains locked.**
- iii. **Maes Sgrialu / Skateboard Park**  
**Dim byd o bwys i'w gofnodi / Nothing of note to record.**
- iv. **Cyffredinol / General**  
**Mae ugain twb o gennin pedr a tiwlipau wedi'u gosod o amgylch y dref / Twenty tubs of daffodils and tulips have been placed around the town.**  
**A allai Cynghorwyr drafod dyfodol hen sêl haearn du Tref Aberteifi sy'n cael ei storio gan y Bachan Deche ar hyn o bryd.**  
Could councillors discuss the future of an old black cast iron Cardigan Town seal currently in storage with the Handyperson.  
**Clerc i gael lluniau o'r sêl a'r eitem i'w rhoi ar yr Agenda nesaf.**  
Clerk to obtain photos of the seal and item to be placed on the next Agenda.

9. **Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf / Items for the next Agenda**  
**Adolygiad o'r Rheolau sefydlog / Review of the Standing Orders**  
**Hen sêl Aberteifi / Old Cardigan seal**

***Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.45yh.***  
***There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.45pm.***

Arwyddwyd/Signed ..... (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date .....